# Cydlynydd Datblygu Cwricwlwm
# Castell-nedd Port Talbot
# Pecyn Cais

Diolch am eich diddordeb yn y rôl uchod ac yn ein Sefydliad.

Yn y pecyn cais hwn fe welwch y wybodaeth ganlynol:

- Gwybodaeth am Addysg Oedolion Cymru
- Trosolwg y Rôl
- Yr hyn y gallwn ei gynnig i chi
- Sut i wneud cais
- Proffil Rôl a Manyleb Person
- Cydlynydd Datblygu Cwricwlwm (CDC) tasgau a chyfrifoldebau
- Canllawiau ar gyfer llenwi ffurflen gais am swydd

Mae Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac i greu amgylchedd gwaith cynhwysol. Credwn fod cael gweithlu amrywiol ar bob lefel yn ein galluogi i gynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Mae safbwyntiau a phrofiadau amrywiol yn hanfodol i'n llwyddiant, ac rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o unrhyw gefndir sydd gyda'r profiad a'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni'r rôl hon.

**Os cewch unrhyw anawsterau neu os oes angen y ffurflen arnoch mewn fformat gwahanol, cysylltwch drwy anfon neges i** recruitment@adultlearning.wales

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

**Gwybodaeth am Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales**

Sefydliad Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) cenedlaethol yw Addysg Oedolion Cymru (AOC) ac mae'n unigryw yng Nghymru, gan ei fod yn canolbwyntio'n llwyr ar yr elfen hon o'r sector addysg.

Gwelwn ein cenhadaeth fel 'Darparwr cyfleoedd dysgu ysbrydoledig a hygyrch i oedolion ledled Cymru a chefnogi ein dysgwyr i gyflawni canlyniadau llwyddiannus, yn uniongyrchol a thrwy berthnasoedd ag eraill.'

Mae ein cynnig yn eang, o sgiliau sylfaenol yn y Gymraeg, Saesneg, rhifedd, digidol, iechyd personol a chyllid, hyd at gymwysterau sy'n darparu llwybrau i Addysg Uwch. Rydym hefyd yn cynnig cyrsiau mewn pynciau sy'n gysylltiedig gyda hobïau neu ddiddordebau arbennig gan y gall pob dysgu gael effaith gadarnhaol. Ym mlwyddyn academaidd 2022/23, cyflawnwyd dros 18,000 o gofrestriadau, gyda darpariaeth i dros 9,000 o unigolion.

I lawer, gall ein cyrsiau fod y tro cyntaf iddynt gymryd rhan mewn dysgu ffurfiol ers gadael addysg draddodiadol ac yn gam grymusol ar y ffordd i gyflawni eu nodau. Trwy ble, pryd, a sut rydym yn cynnig cyfleoedd dysgu, ein nod yw helpu a chefnogi unigolion trwy eu profiad dysgu gyda ni, i ysbrydoli ac adeiladu eu hyder a'u sgiliau.

Mae dysgu wyneb yn wyneb wrth wraidd ein darpariaeth gan fod hyn yn hwyluso manteision ehangach o gyfarfod gyda'n gilydd i ddysgu. Cynhelir ein cyrsiau ledled Cymru, mewn lleoliadau o fewn y cymunedau lle mae pobl eisoes yn teimlo'n gartrefol, gan ddileu'r rhwystr o orfod mynd i gampws ffurfiol. Er mwyn cefnogi dysgwyr nad ydynt yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth wyneb yn wyneb, rydym yn parhau i gynnal cynnig ar-lein, gan alluogi dysgwyr i ymgysylltu â'n sefydliad a bod yn rhan o gymuned ehangach.

Ym mhopeth rydym yn ei gynnig, ein nod bob amser yw darparu addysgu a dysgu rhagorol mewn ffordd sy'n gynhwysol gan ganolbwyntio ar anghenion dysgwyr. Ar gyfer y cyrsiau heb gymhwyster, gall ein dysgwyr ddylanwadu ar yr hyn a gynhigid nesaf, er mwyn eu hannog i barhau â'u taith ddysgu.

Mae'r rhan fwyaf o'n cyrsiau yn rhad ac am ddim i'r dysgwr, gan eu bod yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru neu un o'r sefydliadau niferus rydym yn gweithio gyda nhw, ac mae gennym arlwy helaeth o Gymorth i Ddysgwyr gall helpu i waredu rhwystrau eraill i ddysgu. Mae hyn yn cynnwys cymorth i fynychu cyrsiau ar ffurf cyllid gofal plant neu gludiant, benthyg offer TG neu fynediad at becynnau TG penodol, yn ogystal â chymorth llesiant cyffredinol.

Wedi'n cydnabod gan Lywodraeth Cymru fel arbenigwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned, rydym yn adnabyddus i fynd cam ymhellach i alluogi a chefnogi dysgu i bawb, ac yn aml yn darparu i unigolion sydd mewn amgylchiadau heriol. Mae llawer o'n dysgwyr yn dweud wrthym fod eu profiad gydag AOC wedi newid bywydau, adborth sy'n ein hysbrydoli i weithio'n galetach i ddarparu ar eu cyfer.

Yn elusen gofrestredig, cwmni cyfyngedig a Sefydliad Addysg Bellach dynodedig, ffurfiwyd AOC yn 2016 o ganlyniad i uniad sefydliadau etifeddol gan gynnwys WEA Cymru, Coleg Cymunedol YMCA a Choleg Harlech. Felly, er ein bod yn sefydliad ifanc, rydym yn adeiladu ar yr etifeddiaeth gref ac mae gennym ddyfodol cyffrous o'n blaenau.

## Trosolwg y Rôl a’r Ardaloedd

Mae rôl y Cydlynydd Datblygu Cwricwlwm yn un amrywiol sy'n cefnogi datblygiad a gweithrediad y ddarpariaeth ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned, yn ardal Castell-nedd Port Talbot. Mae hon yn rôl ymarferol sy'n cynnwys pob agwedd ar gynllunio, trefnu, dyrannu adnoddau a datblygu. Bydd eich gwaith yn allweddol wrth gynorthwyo'r Rheolwr Rhanbarthol i sicrhau bod yr holl weithgareddau dysgu yn bodloni'r targedau darpariaeth, cyllid ac ansawdd y cytunwyd arnynt.

Os ydych yn mwynhau amgylchedd gwaith cyflym, amrywiol a gwerth chweil a bod gennych y sgiliau gofynnol, dyma'r cyfle perffaith i ymuno â ni.

Os hoffech sgwrs anffurfiol neu i glywed mwy am y rôl cysylltwch â Beth John, Rheolwr Rhanbarthol De Orllewin a Chanolbarth, beth.john@adultlearning.wales

## Yr hyn y gallwn ei gynnig i chi

**Cyflog:** Graddfa cyfredol o £28,064 i £35,034 y flwyddyn, yn dibynnu ar brofiad (MG1 – MG4)

**Pecyn buddion hael:** Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, Gweithio Ystwyth, Cynllun Beicio i'r Gwaith, 30 diwrnod o wyliau blynyddol + Gwyliau’r Banc a diwrnodau dewisol ychwanegol, AVCS

**Cytundeb:** Parhaol

**Oriau:** Llawn amser 35 awr yr wythnos

**Lleoliad gwaith:** I’w gadarnhau (sgwrs pellach i'w gynnal gyda’r ymgeisydd llwyddiannus), gyda theithio rheolaidd i ac o fewn ardaloedd Castell-nedd Port Talbot (gellir ystyried gweithio ystwyth)

## Sut i wneud cais:

Gwnewch gais drwy ddefnyddio'r ffurflen gais ar-lein neu'r cais fersiwn Word a'i ddychwelyd i **Recruitment@adultlearning.wales** nue lanlwytho drwy ein gwefan

**Sylwch na fydd CVs heb ffurflen gais wedi'i chwblhau yn derbynniol.**

Y dyddiad cau ar gyfer y swydd hon yw **9yb Dydd Mercher 31ain Gorffennaf 2024**

Cyfweliadau i’w cynnal wythnos cychwyn 19eg Awst. Fel rhan o'r broses gyfweld gofynnir i chi wneud cyflwyniad am 15 munud.

Mae Addysg Oedolion Cymru yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a thyfu ei weithlu dwyieithog. Gellir cyflwyno ceisiadau am unrhyw swydd yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg.

## Cydlynydd Datblygu Cwricwlwm – Proffil Rôl

**Pwrpas y Swydd**

Mae'r Cydlynydd Datblygu Cwricwlwm i gynorthwyo a chefnogi datblygiad rhanbarthol a gweithrediad o raglen gydlynol o ddarpariaeth addysg Oedolion yn y gymuned, yn wyneb yn wyneb/ar-lein/cymysg yn ardal daearyddol Castell-nedd Port Talbot.

Mae hon yn rôl ymarferol, gan weithredu'n gyflym, byddwch yn allweddol wrth gynorthwyo'r Rheolwr Rhanbarthol i sicrhau bod yr holl weithgareddau dysgu yn bodloni'r targedau darpariaeth, cyllid ac ansawdd y cytunwyd arnynt.

Bydd eich rôl yn gofyn i chi nodi, cefnogi a chydlynu lleoli tiwtoriaid i'r darpariaeth ranbarthol o fewn yr ardaloedd a nodwyd.

Rhan o'ch rôl fydd datblygu partneriaeth a gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid rhanbarthol allweddol, diwydiant preifat, cyrff statudol a gwirfoddol i gefnogi'r datblygiad parhaus o recriwtio nifer hyfyw o ddysgwyr i'r rhaglen cwricwlwm rhanbarthol.

**Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau**

- Datblygu, trefnu a gweithredu rhaglen briodol o gyrsiau yn yr ardal daearyddol, yn unol â blaenoriaethau cynlluniau strategol a chwricwlwm y sefydliad
- Gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Rhanbarthol a gweithio'n agos â Cydlynydd Cwricwlwm ac Ansawdd Rhanbarthol i sicrhau bod y cwricwlwm a chyflenwi yn bodloni'r targedau darpariaeth, cyllid ac ansawdd a gytunwyd
- Recriwtio niferoedd ymarferol o ddysgwyr i'r rhaglen ddarpariaeth o gyrsiau trwy bartneriaethau, rhwydweithio, cydweithio a hyrwyddo
- Canfod tiwtoriaid potensial fel rhan o broses recriwtio ac i gynorthwyo tiwtoriaid a sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu o'r holl brosesau, polisïau a gweithdrefnau perthnasol
- Datblygu partneriaethau a chyfleoedd cydweithio gydag ystod eang o gyrff yn y diwydiant preifat, statudol a gwirfoddol er mwyn cynorthwyo datblygiad parhaus y rhaglen sydd ar gael i oedolion sy'n dysgu
- Gweithio fel rhan o dîm er mwyn cynorthwyo canghennau lleol a fforymau dysgwyr, gan gynnwys recriwtio dysgwyr ac aelodau fel sy'n briodol ar gyfer yr ardal ddaearyddol
- Cynnig cyngor, cymorth a help i aelodau canghennau a fforymau dysgwyr at ddibenion cryfhau'r sefydliad fel mudiad gwirfoddol.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Rhanbarthol i amlygu a sicrhau cyllid allanol o amrywiaeth o ffynonellau, er mwyn cyflenwi, hyrwyddo ac ehangu'r arlwy ranbarthol o weithgareddau dysgu
- Gweithio gyda'r Cydlynydd Cwricwlwm ac Ansawdd Rhanbarthol er mwyn cefnogi gweithgareddau IQA o fewn y rhanbarth a chydymffurfio â systemau a phrosesau ansawdd mewnol.
- Ymgymryd â gwaith i weithredu a datblygu gweithgareddau'r prosiect, dyluniad a datblygiad y cwricwlwm ar y cyd â'r Rheolwr Rhanbarthol a Cydlynydd Cwricwlwm ac Ansawdd Rhanbarthol
- Gweithio fel rhan o dîm i ddatblygu a gweithredu gweithgareddau cynhyrchu incwm yn unol â thargedau cwricwlwm, cyllid ac ansawdd

- Gweithio fel rhan o dîm ac mewn cydweithrediad â Cydlynywyr Datblygu Cwricwlwm eraill er mwyn sicrhau ystyriaeth a chyflenwi digonol o'r holl dargedau yn ymwneud â darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, cyfleoedd e-ddysgu, gan gynnwys defnyddio technoleg yn y dosbarth, darpariaeth Sgiliau Hanfodol, ADCDF a chyfleoedd cyfartal
- Ymgymryd â ymweliadau dosbarth ac ymgymrys a arsylwadau tiwtoriaid pan fydd hynny'n briodol a phan gytunwyd gan ymgynghori â'r Rheolwr Rhanbarthol a Cydlynydd Cwricwlwm ac Ansawdd Rhanbarthol
- Ymgymryd ag ymarfer addysgu pan fydd hynny'n briodol a gytunwyd mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Rhanbarthol
- Bod yn rhan o wirio mewnol rhanbarthol holl weithgareddau IQA a digwyddiadau safoni
- Cysylltu â'r tîm gwasanaethau dysgwyr er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn derbyn y budd mwyaf posibl wrth wasanaethau cymorth y sefydliad
- Cysylltu â'r rheolwr gwasanaethau dysgwyr er mwyn sicrhau'r lefel boddhad uchaf i'r holl ddysgwyr, gan sicrhau bod llais y dysgwyr yn cael ei glywed a'i weithredu arno
- Cyfrannu at broses SAR a Chynllun Gwella Ansawdd y rhanbarth a'r sefydliad

**Cyfrifoldebau a dyletswyddau generig**

- Gwneud unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y gallai'r swydd ofyn yn rhesymol amdanynt
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau a osodwyd gan Addysg Oedolion Cymru a chymryd cyfrifoldeb dros gynnal amgylchedd dysgu diogel o fewn y rhanbarth
- Cydymffurfio â pholisi cyfathrebu electronig, gan gynnwys defnyddio e-bost a'r rhyngrwyd
- Gyrru ymrwymiad y sefydliad i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei flaen, gan sicrhau bod asesiadau effaith cydraddoldeb priodol yn eu lle
- Ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg ac Addysg Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Chwarae rhan weithredol wrth gyflwyno gwelliant parhaus ledled y sefydliad
- Gweithio yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a sicrhau bod holl bryderon diogelu data yn cael eu hadrodd at Reolwr Diogelu Data'r sefydliad
- Cyfrannu at gyfarfodydd staff, mentrau a datblygiadau sefydliadol.
- Cydymffurfio â holl bolisïau a gweithdrefnau'r sefydliad, gan gadw ar ben newidiadau a gwneud unrhyw addasiadau sydd eu hangen i systemau gweinyddol
- Sicrhau bod pob agwedd o gyfarwyddiadau ariannol ac archebion sefydlog y sefydliad yn cael eu dilyn

a) Fel un o delerau eich cyflogaeth, efallai y bydd yn rhaid i chi ymgymryd â dyletswyddau eraill fel sy'n rhesymol ofynnol ohonoch ac sy'n gymesur â'ch gradd.
b) Dyma ddisgrifiad o'r swydd fel y mae ar hyn o bryd. Arfer Addysg Oedolion Cymru|Adult Learning Wales yw archwilio proffiliau rolau'r cyflogai/gweithiwr o bryd i'w gilydd a'u diweddaru i sicrhau eu bod yn berthnasol i'r swydd fel y bydd yn cael ei pherfformio ar y pryd, neu ymgorffori pa bynnag newidiadau fydd yn cael eu cynnig.
c) Bwriad y disgrifiad hwn yw sefydlu amlinelliad o'r dyletswyddau, nid diffiniad llwyr o'r swydd.

**Cydlynydd Datblygu Cwricwlwm – Manyleb Person**

| MEINI PRAWF | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| **ADDYSG, HYFFORDDIANT A CHYMWYSTERAU** | Lleiafswm safon Addysg Lefel 3<br>Cymhwyster Addysgu Lefel 3 (PTTLS, AET)<br>Neu fod yn barod i astudio ar gyfer cymhwyster addysgu perthnasol (Lefel 3) o fewn cyfnod penodol o amser a gaiff ei ariannu'n llawn | Cymhwyster Sgiliau Hanfodol<br>Cymhwyster Arwain Addysg Oedolion<br>Cymhwyster Addysgu Lefel 4<br>Dyfarniad Asesydd Lefel 3 neu ragflaenydd<br>Cymhwyster sicrhau ansawdd mewnol IQA Lefel 4 neu ragflaenydd neu parodrwydd i weithio tuag at hyn.<br>Profiad perthnasol o grefftau galwedigaethol |
| **PROFIAD** | Profiad o addysg gymunedol, addysg oedolion neu ddatblygu cymunedol<br>Profiad o weithgareddau hyrwyddo neu farchnata mewn cyd-destun cymunedol<br>Profiad o gymryd rhan mewn gweithdrefnau ansawdd mewnol | Profiad o weithio gyda neu o fewn grwpiau gwirfoddol neu sefydliad elusennol<br>Profiad o weithio mewn partneriaeth, a rhwydweithio, gydag asiantaethau eraill yn y sector gwirfoddol, cymunedol a statudol<br>Profiad o gynllunio a chydlynu addysg cyfunol a ar-lein |
| **SGILIAU, GWYBODAETH AC AGWEDDAU** | Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu gwych , sgiliau trefnu, cydlynu a gweinyddu gwych<br>Sgiliau TG da ac amrywiol, gan gynnwys defnyddio’r holl becynnau meddalwedd swyddfa cyffredin<br>Gallu gweithio fel rhan o dîm ac yn annibynnol<br>Gallu datblygu perthnasoedd gwaith gyda phobl ar bob lefel, gan gynnwys grwpiau cymunedol<br>Gallu gweithio i derfynau amser tynn, gan gynllunio a blaenoriaethu gwaith i sicrhau cwrdd â’r terfynau amser<br>Gwybodaeth o faterion cyfoes ym maes Addysg Oedolion yng Nghymru<br>Ymrwymiad i gefnogi a datblygu canghennau lleol a fforymau dysgwyr<br>Gallu annog ac ysgogi dysgwyr anhraddodiadol<br>Ymrwymiad i Gyfle Cyfartal | Dealltwriaeth o Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn<br>Dealltwriaeth o systemau ansawdd a hunanasesu<br>Yn gyfarwydd â gwerthoedd a phrosesau Dysgu Cymunedol<br>Mail merge, Cyhoeddi Bwrdd Gwaith<br>Datblygu systemau a gweithdrefnau swyddfa newydd er mwyn helpu i ddatblygu a gwella’n barhaus<br>Dealltwriaeth o ofynion cyfrinachedd data |

| | | |
|---|---|---|
| | Parodrwydd i dderbyn hyfforddiant i ehangu sgiliau | |
| **GOFYNION ERAILL** | Yn meddu ar drwydded yrru gyfredol a mynediad at gludiant ei hun neu fynediad i gludiant cyhoeddus<br>Yn fodlon teithio yn ôl y gofyn<br>Agwedd gadarnhaol at ddysgu’r Gymraeg<br>Yn fodlon gweithio'n hyblyg, gan gynnwys rhywfaint o waith ar y penwythnos a gyda'r nos | Sgiliau Cymraeg Lefel 3 (gweler y tabl Sgiliau Cymraeg yn y pecyn cais) |

## Tasgau a chyfrifoldebau dyddiol Cydlynydd Datblygu Cwricwlwm (CDC) a ddarperir gan CDC

Nid rôl addysgu na dylunio cwrs/adnoddau yw rôl y Cydlynydd Datblygu Cwricwlwm (CDC), mae hyn yn rhywbeth y caiff y rôl hon ei chamgymryd amdano yn aml.

Prif rôl y CDC yw i gefnogi y datblygu, gweithredu a chynnal rhaglen gydlynol o ddarpariaeth gymunedol wyneb yn wyneb/ar-lein/cymysg i oedolion mewn ardal(oedd) daearyddol.

Mae rôl y CDC yn rôl adweithiol, ymarferol iawn ac ni fydd pob diwrnod yr un peth. Fel CDC byddwch yn delio â nifer o dasgau, rhai y byddwch yn eu gwneud yn ddyddiol/wythnosol/misol/tymhorol, nid yw'r rhestr ganlynol yn hollgynhwysfawr ond er mwyn rhoi syniad o ba dasgau y gallwch eu gwneud, a gall hyn amrywio o ranbarth i ranbarth.

Gall sefydlu cyrsiau I fyny ddod o un o dri lle gwahanol

- Wrth cydgysylltu â sefydliad partner i ganfod eu hanghenion a theilwra cwrs i gyd-fynd, a allai fod yn gymysgedd o unedau anachrededig ac achrededig
- Neu byddai cwrs yn cael ei sefydlu i ymateb i angen gan ddysgwyr
- Mae gan y Cyngor neu awdurdodu arall arian i'w sbario ac maent am i ni redeg cyrsiau ar eu cyfer a byddant yn talu amdanynt

Unwaith bydd y cwrs wedi'i sefydlu beth fydd y cwrs yn ei olygu:

- Cyflogi tiwtor neu diwtoriaid i gyflwyno unedau'r cwrs
- Cytuno yr oriau, amseroedd, hyd wythnosau gyda thiwtor(iaid) a'r partner
- Efallai nad oes gan y partner leoliad addas – felly byddai angen i chi ddod o hyd i un yn agos at y dysgwyr
- Bydd angen cwblhau Asesiad Risg o'r adeilad cyn y gall y cwrs ddechrau
- Llwytho i'r cynlluniwr cyrsiau
- Llenwi Pro Forma ar gyfer y tîm gweinyddol fel y gallant roi'r cwrs ar y cynllunydd (mae hyn yn wahanol mewn rhai rhanbarthau lle mae'r CDC yn rhoi'r cwrs ar y cynlluniwr)
- Hysbysebu y cwrs trwy anfon dolenni marchnata at bartneriaid eraill – oni bai fod y cwrs yn fewnol a bod y partner wedi dynodi dysgwyr ar ei gyfer
- Sicrhau fod gan y tiwtor(iaid) yr holl waith papur angenrheidiol
- Ymweld â'r dosbarth i sicrhau bod popeth yn gweithio'n dda
- Sicrhau bod Moodle a/neu Teams yn gweithio i diwtoriaid a dysgwyr – dilyn i fyny gyda TG os ddim yn gweithio
- IQA ac ymweliadau cerdded dysgwyr

Os oes unrhyw broblemau yn ystod y cwrs:

- Sicrhau bod tiwtor(iaid) yn cael eu cefnogi
- Sicrhau bod digon o ddysgwyr arno fel bod y cwrs yn gallu parhau – os na, fydd rhaid cau'r cwrs a diweddaru'r cynlluniwr (system DAF)
- Newid dyddiadau os oes angen – gallai hyn fod oherwydd materion yn ymwneud â dysgwyr neu leoliad
- Cynorthwyo'r tiwtor gyda phrofion WEST yn ystod diwrnodau anwytho rhai cyrsiau – yn enwedig y rheiny ar Lefel 2 ac uwch
- Argymell cwrs arall (neu sefydlu cyrsiau arall os nad yw'r dysgwr yn addas ar gyfer un presennol)

- Sicrhau fod gan y tiwtor(iaid) yr holl offer perthnasol – os nad ydynt, bydd angen trafod â TG a mynd â nhw i'r dosbarth/tiwtor
- Rhaid i gyrsiau gael eu gosod gan DAF ar y system os bydd unrhyw newidiadau yn digwydd (absenoldeb tiwtor, hyd amser, diwrnodau neu wythnosau yn newid) ac ati.
- Mynd ar ôl unrhyw waith papur sy'n weddill

Arall:

- Mynd ar drywydd gwaith papur sydd yn weddill
- Newid gwybodaeth cwrs
- Gellir sefydlu cyrsiau dilynol lle mae angen a chyllid ar gael i wneud hynny
- Pro fforma ar gyfer cyrsiau dilynol – yr un drefn â'r uchod
- Bod ar gael yn gyffredinol i diwtoriaid os oes ganddynt gwestiynau yn codi ar ddiwrnod cwrs na allant eu hateb
- Sicrhau bod pob tiwtor yn cadw cofrestriad CGA
- DPP tiwtor lle bo'n briodol
- Mynychu cyfarfodydd Rhanbarthol a chyfarfodydd Tîm
- Cyfarfodydd a sesiynau Safoni IQA
- Ymateb i ymholiadau SRhG (MIS)
- Ymateb i ymholiadau dysgwyr am gyrsiau sydd i ddod
- Ymateb i bartneriaid sydd eisiau cyrsiau pellach
- Hyfforddi tiwtoriaid newydd
- Sicrhau trosglwyddiadau gyda thiwtoriaid newydd os yw'r tiwtoriaid blaenorol yn gadael
- Sesiynau sefydlu gyda thiwtoriaid

# Canllaw ar gyfer cwblhau ffurflen gais am swydd

**Byddwch angen** y ddogfen canlynnol ar gyfer cwblhau'r ffurflen gais:-

- **Proffil Rôl** ar gyfer y swydd yr ydych yn ymgeisio amdani
- **Manyleb Person** (hwn yw'r adran olaf ar y ddogfen proffil rôl) ar gyfer y swydd yr ydych yn ymgeisio amdani

❖ **Darllenwch y dogfennau cyn cwblhau'ch cais**. Sicrhewch eich bod yn deall gofynion y swydd, o ran **dyletswyddau a chyfrifoldebau'r** swydd **(y manylir arnynt yn y proffil rôl**) a'r **gofynion personol** i allu cyflawni'r dyletswyddau hynny **(y manylir arnynt yn y manyleb person).**

❖ **Gwiriwch eich bod yn gallu cwrdd â'r gofynion Hanfodol** yn y manyleb person a'ch bod o'r farn y gallech gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd yn llwyddiannus, yn dilyn cyfnod rhesymol o gyfarwyddyd ac ymgyfarwyddo.

❖ **Sicrhewch eich bod yn egluro yn yr adran Datganiad Personol - sut rydych chi'n cwrdd â Meini Prawf y Manyleb Person (ar gael o fewn y Proffil Rôl) ac yn nodi, gan ddarparu enghreifftiau lle bynnag yn bosibl sut y gall eich sgiliau a'ch profiad fod yn gysylltiedig â'r Meini Prawf hyn â dyletswyddau'r swydd.** Peidiwch ag anghofio, er y bydd eich profiad gwaith yn bwysig ei gynnwys yn eich cais, gallai profiad arall a gafwyd y tu allan i'r gwaith mewn sefydliadau cymunedol a gwirfoddol neu fuddiannau hamdden, fod yr un mor ddilys. Cadwch eich cais yn gryno ac i'r pwynt.

❖ **COFIWCH bydd y penderfyniad ynghylch a fyddwch chi'n cael eich gwahodd i gyfweliad ai pheidio yn seiliedig ar y wybodaeth rydych chi'n ei darparu yn eich Datganiad Personol.** Mae'n arbennig o bwysig eich bod yn cwblhau'r adran datganiad personol i ddangos sut rydych chi'n cwrdd â'r gofynion ar gyfer y rôl hon. Bydd y datganiad personol gorffenedig yn darparu'r **rhan fwyaf** o'r wybodaeth y bydd ei hangen arnom i asesu'ch cais yn erbyn meini prawf y manyleb person.

❖ **Darllenwch eich cais**. Gwiriwch eich bod wedi cwblhau pob rhan o'r broses. Os oes mwy nag un lleoliad ar gyfer y swydd neu os cynigi Iirannu'r swydd, nodwch eich dewisiadau ar y ffurflen gais.

❖ **Cyflwyno eich cais gorffenedig** cyn yr amser a dyddiad cau drwy e-bost at recruitment@adultlearning.wales nue lanlwytho drwy ein gwenfan